Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Alison Ward
Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Y Ganolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl
NP4 6YB

22 Mawrth 2013

Annwyl Alison,

**Ymweliad Monitro Estyn 18-22 Chwefror 2013**

Yn dilyn arolygiad Estyn o wasanaethau addysg Torfaen ar gyfer plant a phobl ifanc yn Hydref 2011, nodwyd bod angen gwelliant sylweddol ar yr awdurdod.

Yn Chwefror 2013, bu tîm o saith arolygydd, dan arweiniad Gerard Kerslake AEM, yn ymweld â'r awdurdod i fonitro cynnydd yn erbyn yr argymhellion yn codi o'r arolygiad yn 2011, ac i adolygu cynnydd o ran gwella perfformiad yr awdurdod. Mae'r llythyr hwn yn cofnodi canlyniadau'r ymweliad hwnnw.

Cynhaliodd y tîm drafodaethau gydag arweinydd y cyngor, aelodau etholedig, y prif weithredwr, uwch swyddogion, penaethiaid a chynrychiolwyr partneriaid. Buont yn craffu ar ddogfennaeth, gan gynnwys tystiolaeth ar y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran pob un o argymhellion yr arolygiad. Aethant ati hefyd i ystyried y canlyniadau o holl arolygiadau Estyn yn yr awdurdod ers yr arolygiad gwreiddiol yn Hydref 2011. Bu'r tîm hefyd yn cysylltu â Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

Ar ddiwedd yr ymweliad, adroddodd y tîm ei ganfyddiadau i'r aelod cabinet ar gyfer addysg, y prif weithredwr, y dirprwy brif weithredwr a phrif swyddog addysg yr awdurdod.

**Canlyniad yr ymweliad monitro**

Ers yr arolygiad yn Hydref 2011, cynnydd cyfyngedig mae'r awdurdod wedi'i wneud yn erbyn y rhan fwyaf o'r argymhellion a adawyd gan y tîm arolygu. Mae gwelliannau wedi bod yn araf ac mae safonau yn yr ysgolion uwchradd yn parhau'n anfoddhaol.

Mae angen mwy o newid a gweithredu'n gyflymach er mwyn sicrhau gwelliant pellach. Er bod gwybodaeth berthnasol ar gael am berfformiad ysgolion a'r gwasanaethau addysg, nid yw'r awdurdod yn nodi tanberfformio'n gywir o hyd, na

goblygiadau hyn i’r dysgwyr. Golyga hyn fod diffyg trafod agored o hyd ynglŷn â diffygion. O ganlyniad, nid yw’r awdurdod yn nodi’n glir graddau’r gwelliannau sydd eu hangen na pham mor gyflym mae angen gwneud cynnydd i ysgolion, rheolwyr ac aelodau etholedig.

Cul fu dehongliad yr awdurdod o argymhellion Estyn yn yr adroddiad am wasanaethau addysg yr awdurdod lleol o Hydref 2011. Mae hyn wedi golygu nad yw’r awdurdod wedi mynd ati’n ddigon cadarn i ddadansoddi materion sylfaenol a arweiniodd at nodi bod angen gwelliant sylweddol ar yr awdurdod.

Yn dilyn yr arolygiad diwethaf, sefydlwyd tri bwrdd gwella gan yr awdurdod i oruchwylio cynnydd yn erbyn yr argymhellion. Cyfraniadau cynnydd mae’r byrddau hyn wedi’u gwneud at gynnydd neu welliannau mewn safonau. Yn aml, mae aelodau’r grwpiau wedi bod yn rhy hael wrth arfarnu cynnydd ac nid ydynt wedi bod yn ddigon trylwyr wrth farnu effaith gweithgareddau.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae cyfran uwch na’r cyfartaledd o ysgolion Torfaen wedi’u nodi fel rhai y mae angen gweithgarwch dilynol arnynt ar ôl eu harolygiadau. Ar hyn o bryd, mae angen gwelliant sylweddol ar un ysgol gynradd, un ysgol uwchradd a’r uned cyfeirio disgyblion, ac mae angen rhoi mesurau arbennig ar waith mewn un ysgol uwchradd.

Nid yw’r awdurdod wedi gwneud defnydd effeithiol o’i bwerau i wella ysgolion sy’n tanberfformio. Ers yr arolygiad diwethaf, anghyson fu ansawdd adroddiadau a ddarparwyd gan swyddogion yr awdurdod lleol i Estyn cyn yr arolygiadau o ysgolion. Yn benodol, mae bron pob un o’r adroddiadau wedi methu â nodi materion yn ymwneud ag ansawdd yr addysgu a’r dysgu yn ddigon da, ac nid ydynt wedi barnu effaith arweinyddiaeth a rheolaeth wael yn glir.

Ym Medi 2012, cymerodd y consortiwm rhanbarthol gyfrifoldeb am y gwasanaethau gwella ysgolion. Ar yr un pryd, mae’r awdurdod wedi cadw ychydig o ymgynghorwyr i gefnogi’r addysgu yn y pynciau craidd. Fodd bynnag, nid yw eu gwaith yn cael ei gydlynu’n strategol yn ddigon da gan yr awdurdod mewn partneriaeth â’r consortia rhanbarthol a’i wasanaeth gwella ysgolion. Mae adroddiadau diweddar a ddarparwyd i Estyn yn dangos gwell dealltwriaeth o ysgolion.

Mae’r awdurdod yn rhy ddibynnol o hyd ar arolygiadau Estyn i farnu ansawdd yr addysgu a’r dysgu yn y rhan fwyaf o ysgolion. Ychydig iawn o ysgolion uwchradd sydd wedi bod â diwylliant o ddefnyddio arsylwadau o wersi i rannu arfer dda yn ychwanegol at eu defnyddio ar gyfer rheoli perfformiad, ac mae hyn wedi rhwystro cynnydd o ran gwella addysgu a dysgu.

Mae strategaethau addas wedi bod ar waith gan yr awdurdod i wella cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion cynradd. Mae cyfraddau presenoldeb wedi codi ers yr arolygiad diwethaf, ac erbyn hyn maent yn debyg i gyfartaledd Cymru.

Yn 2012, fe wnaeth y cyfraddau gwaharddiadau cyfnod penodol o bum dirwnod neu lai wella ychydig bach yn unig, ond maent yn parhau’n uwch o lawer na chyfartaledd Cymru. Mae gwaharddiadau cyfnod penodol o chwe diwrnod neu fwy wedi cynyddu. Mae perfformiad cymharol Torfaen wedi dirywio hefyd o gymharu ag awdurdodau lleol yng Nghymru o ran y meincnod prydau ysgol am ddim.

Ers yr arolygiad blaenorol, mae Torfaen wedi gwneud cynnydd digonol o ran lleihau lleoedd dros ben. Mae'r awdurdod lleol wedi cyhoeddi hysbysiadau statudol er mwyn gweithredu cynigion ar gyfer cael gwared ar 324 o leoedd dros ben yn yr ysgolion cynradd, ac mae hefyd wedi delio ag un ysgol â nifer sylweddol o leoedd dros ben. Mae'r awdurdod wedi cytuno cynigion ar gyfer ailfodelu'r ddarpariaeth ôl-16 a fydd yn mynd i'r afael â lleoedd dros ben mewn ysgolion uwchradd. Fodd bynnag, mae'r cynigion hyn yn dibynnu ar gwblhau cytundeb gyda'r coleg addysg bellach lleol, cyllid gan Lywodraeth Cymru a chymeradwyaeth ffurfiol yr aelodau etholedig.

Fe wnaeth yr arolygiad yn Hydref 2011 nodi nifer o feysydd i'w gwella yn y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Ers yr arolygiad hwnnw, dim ond lleiafrif o'r diffygion hyn y mae'r awdurdod wedi mynd i'r afael â nhw. Mae hyn yn cynnwys sicrhau cyllid ar gyfer y gwasanaeth allgymorth i ysgolion arbennig a gwella'r wybodaeth i rieni ar wefan y cyngor. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod lleol wedi rhoi blaenoriaeth i ddatblygu ei strategaeth ADY sylfaenol. O ganlyniad, nid yw gwelliannau yn y cynllunio strategol, monitro ac arfarnu gwasanaethau ADY yr awdurdod wedi dechrau eto, er y cynlluniwyd i'r rhain ddechrau nes ymlaen yn 2013.

**Cynnydd o ran yr argymhellion yn yr adroddiad**

**Argymhelliad 1: Codi safonau mewn ysgolion uwchradd, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4**

**Nid aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn.**

Pan fydd perfformiad ysgolion Torfaen yn cael ei gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg o ran y meincnodau prydau ysgol am ddim, roedd ymhell islaw'r cyfartaledd o ran pob un o'r pum prif ddangosydd yng nghyfnod allweddol 4 yn 2012. Mae'r awdurdod wedi methu pob un o feincnodau Llywodraeth Cymru dros y pedair blynedd diwethaf. Er bod gwelliannau bach ym mherfformiad ysgolion uwchradd yn 2012, mae safonau'n parhau'n anfoddhaol ar y cyfan.

O gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg o ran y meincnodau prydau ysgol am ddim, mae perfformiad y dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 3 yn parhau ymhell islaw'r cyfartaledd. Yn 2012, dim ond un ysgol oedd yn y chwarter uchaf, ac roedd bron hanner yr ysgolion yn y 25% isaf.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad yn anfoddhaol o ran pob un o'r pum prif ddangosydd. Ar y trothwy lefel 1 a'r sgôr pwyntiau cyfartalog wedi'i chapio, nid yw'r un ysgol uwchlaw'r cyfartaledd. O ran tri o'r pum dangosydd, mae dros hanner yr ysgolion yn y 25% isaf. O ran y trothwy lefel 2 a lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg, dim ond un ysgol sydd yn y 25% uchaf. O ran pob un o'r dangosyddion eraill, nid oes yr un ysgol yn y 25% uchaf.

Mae cynnydd disgyblion o ran y dangosydd pwnc craidd a'r trothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg, yn sylweddol islaw'r cyfartaledd o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3, ac o gyfnod allweddol 3 i gyfnod allweddol 4. Yn gyffredinol, golyga hyn nad yw disgyblion uwchradd yn Nhorfaen yn gwneud cynnydd gystal ag y dylent.

Mae disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio ymhell islaw'r lefelau disgwyliedig. Mae'r bwlch rhwng y disgyblion hyn a'r rhai nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi mynd yn fwy dros y tair blynedd diwethaf yn y dangosyddion allweddol yng nghyfnod allweddol 4.

**Argymhelliad 2: Cymryd camau i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH)**

**Aethpwyd i'r afael yn rhannol â'r argymhelliad hwn.**

O sylfaen isel iawn, mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd araf ers yr arolygiad diwethaf. Mae wedi sefydlu grŵp strategol i oruchwylio'r gwaith hwn, sy'n cynnwys ystod briodol o bartneriaid. Mae hefyd wedi cynhyrchu strategaeth a chynllun gweithredu ar gyfer pobl ifanc NACH, sy'n nodi blaenoriaethau tymor byr a thymor hir.

Yn 2011, roedd canran y rhai a adawodd yr ysgol ym Mlwyddyn 11 nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH) ymhlith yr uchaf yng Nghymru. Mae data Gyrfa Cymru sydd heb ei ddilysu yn awgrymu bod hyn wedi gostwng yn 2012. Fodd bynnag, nid yw data Cymru gyfan ar gael eto, ac nid oed modd cymharu ag awdurdodau eraill felly.

Er mwyn mynd i'r afael â'r ganran uchel o'r rhai sy'n gadael yr ysgol ym Mlwyddyn 11 sy'n NACH, mae'r awdurdod wedi datblygu ystod o ymyriadau i gynorthwyo pobl ifanc unigol yng nghyfnod allweddol 4, a'r rhai sydd wedi gadael yr ysgol, fel 'PreVent'[1] a 'phrosiect CA4' Teuluoedd yn Gyntaf. Fodd bynnag, nid oes systemau digon da gan yr awdurdod ar waith eto i fesur effaith tymor hir y gwaith hwn. O ganlyniad, nid oes dealltwriaeth glir ganddo o ba mor effeithiol y mae'r ymyriadau hyn yn helpu pobl ifanc i gynnal eu hymglymiad mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant dros gyfnod.

Mae'r awdurdod wedi canolbwyntio ar gymorth ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 4 a'r rhai sy'n gadael yr ysgol. O ganlyniad, nid yw wedi gwneud digon i nodi disgyblion sydd mewn perygl o fynd yn NACH yn gynharach yn eu haddysg.

Mae'r awdurdod wedi bod yn araf yn datblygu systemau effeithiol ar gyfer casglu data ar y rhai sy'n gadael yr ysgol. Er enghraifft, hyd yn ddiweddar, nid oedd gwybodaeth ddigon manwl ganddo am y rhai sy'n gadael yr ysgol sy'n NACH neu mewn perygl o fynd yn NACH. Golyga hyn nad yw ymyrraeth bob amser yn amserol nac wedi'i thargedu'n briodol. O ganlyniad i weithio gwell mewn partneriaeth a datblygu Protocol Rhannu Gwybodaeth, mae systemau yn gwella erbyn hyn ac mae data'n dod yn fwy cywir. Mae'r awdurdod yn dechrau defnyddio'i ddata i olrhain y grŵp hwn o bobl ifanc yn well ac i ddarparu ymyrraeth wedi'i thargedu'n fwy priodol. Fodd bynnag, megis dechrau cael ei ddatblygu y mae'r gwaith hwn.

[1] Mae Torfaen PreVent 14-19 yn bartneriaeth gydag adran addysg Torfaen; y gwasanaeth ieuenctid; datblygu chwaraeon; Coleg Gwent a phartneriaid eraill. Ei nod yw cynorthwyo pobl ifanc 14-19 oed yn Nhorfaen i gyflawni'u potensial llawn.

**Argymhelliad 3: Gwella ansawdd a chysondeb wrth arfarnu gwasanaethau i lywio'r cynllunio yn fwy effeithiol**

**Nid aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn.**

Mae asesiad yr awdurdod ei hun o'i gynnydd yn canolbwyntio gormod ar welliannau bach yn y prosesau hunanasesu, heb ddigon o asesu beirniadol o unrhyw welliannau yn ei ddefnydd o arfarnu perfformiad ac wrth gynllunio gwasanaethau addysg. Adlewyrchir yr anhawster hwn yn hunanarfarniad blynyddol mwyaf diweddar y gwasanaethau addysgu. Er bod yr adroddiad hunanarfarnu'n cynnwys mwy o ffocws ac yn fwy arfarnol nag yn y blynyddoedd blaenorol, nid yw'n canolbwyntio digon o hyd ar yr effaith niweidiol y mae ychydig o feysydd pwysig i'w datblygu yn ei chael ar ragolygon gwella'r awdurdod.

Mae'r amcanion strategol a amlygir yn y Cynllun Corfforaethol yn cael eu rhaeadru'n glir i gynlluniau lefel gwasanaeth. Golyga hyn fod uchelgeisiau'r awdurdod yn cael eu hamlinellu'n glir ar lefelau gweithredol. Fodd bynnag, nid yw'r mesurau llwyddo a ddefnyddir ar lefel gwasanaeth yn galluogi rheolwyr i ddangos yn ddigonol effaith eu camau gweithredu ar ganlyniadau gwasanaethau neu gyflawni ei flaenoriaethau.

Er bod yr awdurdod yn symud mwy tuag at ddefnyddio mesurau deilliannau i arfarnu ei waith, nid yw'n defnyddio'r rhain yn gyson. Pan fod methodolegau sy'n seiliedig ar ddeilliannau yn cael eu defnyddio gan y gwasanaethau addysg, mae mesurau perfformiad a meini prawf llwyddo yn parhau i ganolbwyntio i raddau helaeth ar gwblhau tasgau a gweithgareddau. Golyga hyn ei bod yn anodd dwyn swyddogion i gyfrif am eu perfformiad ac i fonitro effaith eu gwaith. Felly, nid yw'r trefniadau cynllunio presennol yn galluogi'r awdurdod i dargedu nac arfarnu ymyriadau ar lefel gwasanaeth yn ddigon da.

Mae data am berfformiad disgyblion ar gael yn fwy hwylus erbyn hyn. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod yn defnyddio'r wybodaeth hon yn llawn ac yn ddigon deallus neu soffistigedig eto i dargedu'n well y grwpiau hynny o ddysgwyr sydd wedi'u nodi ar gyfer ymyriadau pwrpasol ar draws gwasanaethau.

**Argymhelliad 4: Gwella perfformiad wrth reoli gwasanaethau i sicrhau dull cyson o gyflawni gwelliannau**

**Aethpwyd i'r afael yn rhannol â'r argymhelliad hwn.**

Mae'r awdurdod wedi sefydlu trefniadau corfforaethol cytûn ar gyfer rheoli perfformiad y cyngor. Gwnaed gwaith ers yr arolygiad diwethaf i ddatblygu cyfres briodol o ddangosyddion yn seiliedig ar ddeilliannau i gefnogi'r Cynllun Integredig Sengl newydd. Fodd bynnag, mae gwendidau yng nghywirdeb rhai mesurau ac yn ansawdd y dystiolaeth a ddefnyddir gan yr awdurdod i farnu gwelliant ac effaith. Mae'r awdurdod felly yn wynebu her barhaus i wella'r ffordd y mae'n adrodd gan ddefnyddio mesurau llwyddiant yn seiliedig ar ddeilliannau yn hytrach na defnyddio disgrifiadau o weithgareddau yr ymgymerwyd â nhw.

Mae Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cymunedau sy'n Dysgu yn fwy effeithiol erbyn hyn am ei fod yn canolbwyntio ar lai o flaenoriaethau ac mae'n cynnig mwy o her i

wasanaethau.  Mae'r pwyllgor yn cael ystod fwy sylweddol o wybodaeth am berfformiad gwasanaethau ac ysgolion.  Fodd bynnag, er bod argaeledd data a mynediad at ddata wedi gwella, mae'r dull o gyflwyno'r data hwn yn celu gwir effaith y negeseuon yn rhy aml.  Golyga hyn nad yw aelodau etholedig yn aml yn deall pwysigrwydd y negeseuon yn llawn, ac o ganlyniad nid yw aelodau yn gallu dwyn swyddogion ac ysgolion i gyfrif yn ddigon da.  Mae hyn wedi'i gydnabod yn un o'r anghenion hyfforddi ar gyfer aelodau.

Mae arweinyddiaeth broffesiynol yr awdurdod wedi'i hadolygu'n ddiweddar iawn i greu un tîm uwch arweinyddiaeth sy'n cynnwys yr holl uwch swyddogion corfforaethol a phrif swyddogion gwasanaethau llinell flaen.  Mae hyn yn darparu un pwynt cymorth a her i reoli arfer partneriaeth a themâu trawsbynciol.  Golyga hyn fod safle corfforaethol priodol gan addysg erbyn hyn.  Fodd bynnag, nid yw'r newid hwn wedi effeithio ar welliannau eto o ran rheoli'r adran addysg.

**Argymhelliad 5:  Rhoi trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith ar gyfer gwaith y PPPhI i sicrhau bod pob gwasanaeth ar gyfer plant a phobl ifanc yn Nhorfaen yn cael ei reoli'n briodol.**

**Aethpwyd i'r afael yn rhannol â'r argymhelliad hwn.**

Mae'r trefniadau partneriaeth yn Nhorfaen ar adeg o drawsnewid, mewn ymateb i argymhellion arolygiad Estyn a newidiadau cenedlaethol.  Mae'r trawsnewid hwn wedi arwain at newidiadau mewn strwythurau partneriaeth, prosesau adrodd, a monitro perfformiad.

Mae aelodaeth y Bwrdd Partneriaeth Gwella wedi'i chryfhau yn sgil cynnwys uwch gynrychiolaeth o'r bwrdd iechyd a'r coleg addysg bellach.

Mae'r strwythur partneriaeth yn gymhleth ac yn cynnwys goruchwyliaeth o gynlluniau gweithredol a gwaith prosiect ar y cyd.  Drwy'r strwythur hwn, mae'r bartneriaeth yn gallu cipio a defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth am bobl ifanc a'u hanghenion.

Mae datblygu'r cynllun integredig sengl drafft a'r dadansoddiad o anghenion sy'n sail iddo wedi nodi blaenoriaethau allweddol a rennir ar gyfer gwella, fel codi lefel presenoldeb ysgolion, lleihau nifer y gwaharddiadau, gwella deilliannau dysgu ar gyfer plant a phobl ifanc, a lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH).  Gellir olrhain y blaenoriaethau hyn yng ngwaith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLl), y Bwrdd Partneriaeth Gwella, ac yng nghynlluniau gwaith y gwasanaethau cymorth ieuenctid.  Fodd bynnag, mae'n anoddach olrhain sut mae partneriaid yn cael eu dwyn i gyfrif yn erbyn y blaenoriaethau hyn.

Yn ogystal, mae blaenoriaethau'r bartneriaeth wedi'u seilio ar themâu, sy'n ei gwneud yn anodd i'r bartneriaeth arfarnu'n ddigonol pa mor dda yr eir i'r afael â materion strategol a gweithredol.

Yn ddiweddar, mae'r bartneriaeth wedi cyflwyno proses rheoli perfformiad, ond mae manylion yr adolygiadau a'r adroddiadau yn drysu rhwng mesurau deilliannau a chwblhau tasgau yn rhy aml.  Golyga hyn fod cyflawniad, cynnydd ac effaith

wirioneddol yn anodd eu nodi ac arfarnu.

Mae canlyniad yr ymarferiad mapio diweddar i ddiweddaru gwybodaeth am ddosbarthiad gwasanaethau cymorth ieuenctid a'u gwaith ar draws y fwrdeistref ar gael i bartneriaid a'r cyhoedd erbyn hyn.  Fodd bynnag, nid oes dadansoddiad manwl o'r wybodaeth hon i nodi bylchau pwysig yn y ddarpariaeth ynghyd â chynigion strategol ar gyfer unrhyw newidiadau i ddosbarthiad y gwasanaethau cyfredol.

**Camau nesaf**

At ei gilydd, barnodd y tîm fod yr awdurdod wedi gwneud cynnydd annigonol i fynd i'r afael â'r argymhellion yn yr adroddiad arolygu.  Mae'r tîm o'r farn, ac mae PAEM yn cytuno, fod angen rhoi mesurau arbennig ar waith mewn perthynas â'r awdurdod hwn.  Mae gan PAEM ddyletswydd, o dan Ddeddf Addysg 2002, i hysbysu'r Gweinidog Addysg a Sgiliau fod angen gweithredu mesurau arbennig yn yr awdurdod.

Bydd eich Arolygwyr Cyswllt yn Estyn yn parhau i fonitro cynnydd cyffredinol drwy eu rôl cyswllt arferol gyda'r awdurdod.

**Argymhellion**

Er mwyn cyflawni'r gwelliannau angenrheidiol mewn ffordd amserol, dylai'r awdurdod adolygu ei gynllun gweithredu ôl-arolygiad (CGOA), a chynyddu cyflymder a dyfnder newid er mwyn mynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad o GAALlPPhI yn 2011. Yn benodol, dylai'r awdurdod:

- wneud yn siwr bod y trefniadau ar gyfer cyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion yn herio ac yn cefnogi pob ysgol yn effeithiol, er mwyn gwella safonau'n gyflym ar gyfer dysgwyr, a'r rhai mewn ysgolion uwchradd yn arbennig; a
- gwella'r defnydd o fesurau deilliannau ar gyfer hunanarfarnu ac adrodd gan y gwasanaeth addysg, a chyrff partneriaeth, er mwyn cynllunio gwasanaethau'n well, i fonitro perfformiad yn fwy cywir, ac i ddwyn gwasanaethau unigol i gyfrif yn fwy.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn i Lywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, er gwybodaeth.

Yn gywir

Simon R Brown
Cyfarwyddwr Strategol

c.c.
Steve Vincent. Llywodraeth Cymru

Alan Morris. Swyddfa Archwilio Cymru